



## Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-Môr

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2024**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae'r disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn yr ethos hapus a chyfeillgar sy'n bodoli yn yr ysgol. Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel iawn o fewn naws gartrefol a chynhwysol yr ysgol, ble mae pawb yn parchu ei gilydd ac yn ofalgar iawn o'i gilydd. Mae'r iaith Gymraeg wrth galon yr ysgol ac mae balchder y disgyblion at y Gymraeg yn amlwg. Maent yn defnyddio'r iaith yn gwbl naturiol y tu fewn a thu allan i'r dosbarth.

O dan arweiniad gwybodus y pennaeth, mae'r staff yn darparu cwricwlwm arloesol a chyffrous sy'n galluogi disgyblion i gaffael y wybodaeth a'r medrau angenrheidiol i gefnogi eu gwaith. Mae hwn yn nodwedd gref. Mae'r athrawon yn ystyried syniadau'r disgyblion yn ofalus ynghyd â chynnig cyfleoedd iddynt ddewis sut yr hoffent ddysgu. Er bod y ddarpariaeth yn gadarn yn y rhan fwyaf o ddsbarthiadau, nid yw'r ddarpariaeth yn herio ychydig o ddisgyblion yn y cyfnod dysgu sylfaen yn ddigonol. O ganlyniad, nid ydynt yn cyflawni hyd orau eu gallu.

Mae agwedd y disgyblion at eu dysgu yn ardderchog ac mae eu hymddygiad yn rhagorol. Mae'r rhan fwyaf yn ymgysylltu'n syth ar ddechrau pob gwers ac yn dangos dyfalbarhad a gwydnwch yn yr hyn maent yn ei gyflawni. Mae'r disgyblion yn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn llwyddiannus ac aeddfed. Fodd bynnag, mae ymateb ysgrifenedig athrawon i helpu disgyblion i wybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella a sut gallant wella eu gwaith yn anghyson.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn ar gyfer yr ysgol sydd yn seiliedig ar ddatblygu lles a chyfleoedd i ddisgyblion ffynnu. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn cefnogi arweinwyr a staff yn effeithiol. Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth y staff a'r llywodraethwyr, yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu cadarn.

# Argymhellion

- A1 Gwella darpariaeth yn y cyfnod dysgu sylfaen i sicrhau bod y disgyblion yn cael eu herio i gyflawni hyd eithaf eu gallu
- A2 Cryfhau'r adborth i ddisgyblion er mwyn eu cynorthwyo i wybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â Chwricwlwm i Gymru, i'w lledaenu ar wefan Estyn.



# Cyd-destun yr ysgol

Enw'r darparwr	Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn-y-Môr
Awdurdod lleol	Dinas a Sir Abertawe
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	277
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	195
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	56
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%)	9.7%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%)	7.2%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	40.5%
Dyddiad penodi'r pennaeth	06/01/2020
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	14/03/2016
Dyddiad dechrau'r arolygiad	29/01/2024

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/04/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.